# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## CANLLAWIAU DRAFFT AR Y FFRAMWAITH MOESEGOL NEWYDD AR GYFER LLYWODRAETH LEOL - ADRODDIAD AR YR YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

### DIBEN

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar ganllawiau drafft y Cynulliad ar y fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol.

### ARGYMHELLIAD

2. Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar yr ymatebion ysgrifenedig i'r ymarfer ymgynghori.

### CEFNDIR

3. Y llynedd, rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol fframwaith newydd ar waith i annog holl aelodau llywodraeth leol i gynnal safonau ymddygiad cyson o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Sail y fframwaith newydd yw cod ymarfer statudol.

4. Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad ar ganllawiau drafft y fframwaith newydd rhwng mis Mai a mis Awst eleni. Diben y canllawiau, sy'n an-statudol yn bennaf, yw helpu pobl i ddeall y fframwaith newydd.

### YSTYRIAETH

5. Daeth 47 o ymatebion i law fel y ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol | 15 |
| Cynghorau Tref a Chymuned | 25 |
| Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | 2 |
| Awdurdodau Tân | 1 |

| | |
|---|---|
| Awdurdodau Heddlu | 1 |
| Arall | 3 |

Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn yr atodiad.

6. Roedd llawer o'r sylwadau yn dechnegol iawn, neu yn bwyntiau manwl yn ymwneud â'r drafftio. Manteisiodd nifer o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy ar y cyfle i roi sylwadau ar y ffordd y mae'r cod ymarfer ei hun yn cael ei weithredu. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o themâu cyffredin, rhai yr oedd y Cynulliad eisoes yn ymwybodol ohonynt:

i. Roedd nifer o'r cynghorau cymuned yn pryderu bod y cod yn rhy fiwrocrataidd ac yn amharu'n ormodol ar y ffordd y mae cynghorau bach yn gweithredu. Fodd bynnag, mae cyswllt diweddar â chymdeithasau cynghorau cymuned wedi nodi nad yw'r pryderon ynghylch effaith y cod yn fater parhaus i'r mwyafrif o gynghorau cymuned. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried a ellid cyflwyno trefniadau symlach ar gyfer cynghorau tref a chymuned fel rhan o adolygiad cyffredinol o'r modd y mae'r cod yn cael ei weithredu yn 2003, ond yn y cyfamser, ni ddylid oedi cyn cyhoeddi'r canllawiau terfynol ar gyfer y fframwaith moesegol.

ii. Mae angen egluro sefyllfa'r aelodau hynny sydd yn gynghorwyr sir ac yn gynghorwyr cymuned o ran eu hystyriaeth o faterion cynllunio. Nid yw Ombwdsman Llywodraeth Leol yn gweld bod angen i aelod sydd wedi gwneud safiad ar gais cynllunio cyn i'r pwyllgor cynllunio ei ystyried ddatgan buddiant. Fodd bynnag, gallai aelod o'r fath sydd â meddwl caëedig ynghylch y mater adael yr awdurdod yn agored i adolygiad barnwrol neu i achos ar sail camweinyddu oherwydd anghyfiawnder. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau cynllunio ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol Rheoli Datblygiad ar ymddygiad i aelodau pwyllgorau cynllunio.

iii. Mae pryder am yr effaith bosibl ar gynnal busnes yr awdurdod yn effeithiol lle bo nifer o aelodau'r pwyllgor yn llywodraethwyr ysgol a lle bo angen iddynt ddatgan buddiant. Mae hwn yn fater penodol i bwyllgorau gweithredol ac mae'n codi materion ehangach ynglyn â pha mor ddymunol ydyw i aelodau gweithredol y cynghorau fod yn llywodraethwyr ysgol hefyd.

iv. Codwyd pryderon ynghylch anallu'r pwyllgorau safonau i ddirprwyo penderfyniadau ar geisiadau i ganiatáu i aelodau siarad/pleidleisio (heblaw mewn is-bwyllgorau ar faterion cynghorau cymuned). Mae hwn yn bwynt arall i'w adolygu am mai'r bwriad gwreiddiol oedd y dylai'r pwyllgorau safonau allu cynnal eu busnes drwy'r dulliau modern megis e-bost, ond maent yn rhwym i ddeddfwriaeth gynharach ar sut y dylai busnes y pwyllgorau gael ei gynnal. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn nodi y gall y pwyllgorau safonau roi caniatâd sy'n para am gyfnod penodol, am y byddai hyn yn helpu cynghorau i weithredu'n effeithlon pan fydd y pwnc dan sylw yn un a fydd yn codi yn rheolaidd (mae rhoi caniatâd i lywodraethwyr ysgol, lle bo materion addysg cyffredinol yn fater, yn enghraifft yn hyn o beth).

v. Mae galwadau i ddiddymu'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 o ran cofrestru buddiant. Mae papur ymgynghori ar symleiddio'r trefniadau cofrestru yn cael ei baratoi.

## Y CAMAU NESAF

7. Bydd swyddogion yn diwygio'r canllawiau yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r sylwadau a ddaeth i law oddi wrth y Pwyllgor.

**Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**Tachwedd 2002**